

# Strategaeth 2023-27

Rhagoriaeth, annibyniaeth ac ymddiriedaeth mewn sicrhaua gwella ansawdd

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

# Pwrpas QAA

Sicrhau bod myfyrwyr a dysgwyr yn profi addysg o'r ansawdd uchaf posibl.



# Rôl ac effaith QAA

Rydym yn asiantaeth ansawdd sy'n arwain y byd gyda phrofiad digymar o ddarparu sicrwydd a gwelliant ansawdd rheoleiddiol a chydweithredol diduedd.

Rydym yn cynorthwyo prifysgolion a cholegau i weithio gyda myfyrwyr a dysgwyr, llywodraethau, cyllidwyr a chyrff rheoleiddio i ddarparu tystiolaeth a gwella ansawdd rhagorol a safonau uchel yr addysg a ddarperir ganddynt.

Rydym yn gweithio tuag at ddealltwriaeth well ar ran y cyhoedd - gartref ac yn rhyngwladol - o sut y dangosir ansawdd rhagorol mewn addysg uwch yn y DU, a sut mae darparwyr hunan-reolus yn sicrhau darpariaeth yr ansawdd honno ac yn mynd i'r afael â gwendidau.

Mae ein gwaith yn diogelu gwerth cymwysterau i fyfyrwyr a dysgwyr, yn ogystal â diogelu a hyrwyddo enw da addysg uwch.

Mae ein gwaith yn seiliedig ar y gred bod profiad academaidd o ansawdd uchel i ddysgwyr yn beth da ynddo'i hun, yn hybu dealltwriaeth a gwybodaeth ddynol, ac yn cynorthwyo cynnydd economaidd a chymdeithasol ehangach.

# Ein pedwar maes ffocws

## Safonau

-

Gwarchod cyfeirbwyntiau'r sector a thargedu canllawiau i sicrhau safonau academaidd a gwerth cymwysterau.

## Sicrwydd a gwelliant

-

Cyflwyno ymagwedd arloesol ac uchel ei pharch at ansawdd, gan alluogi sefydliadau a dysgwyr i weithio ar y cyd i werthuso eu harfer a pharhau i wella eu profiad dysgu.

## Rhyngwladol

-

Ehangu ein gweithgarwch rhyngwladol, gan fanteisio ar enw da rhagorol QAA ac AU y DU yn fyd-eang mewn meysydd newydd er budd addysg drydyddol y DU.

## Arweinyddiaeth

-

Dylanwadu ar lunwyr polisi, prifysgolion a cholegau, myfyrwyr a dysgwyr a chynnig cymorth iddynt drwy fewnwelediad arbenigol wedi'i gyfleu'n glir.

# Mae gwaith QAA yn hanfodol

## Mae prifysgolion a cholegau ar eu cryfaf pan fydd ganddynt sicrwydd annibynnol, cydweithredol, cymesur ac arbenigol, ynghyd â gwelliant ansawdd.



- Mae safonau academaidd yn cael eu diogelu gan y cyfeirbwyntiau sy'n eiddo i'r sector y mae QAA yn gofalu amdanynt, gan gynnwys Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch, Fframweithiau Cymwysterau a Datganiadau Meincnod Pwnc. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer diogelu gwerth cymwysterau ac ar gyfer enw da rhyngwladol sector y DU.
- Mae ein harbenigedd yn helpu prifysgolion a cholegau i fodloni a chydbwyso gofynion rheoleiddio, gan gynnwys rhai cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (PSRBs), a hynny mor gost-effeithiol â phosibl.
- Wrth i bolisi, arfer a thechnoleg newid, rydym yn helpu prifysgolion a cholegau i ragweld ac ymateb i ddatblygiadau newydd, yn hyderus bod ein harweiniad yn ddiduedd ac yn cynrychioli arfer gorau rhyngwladol.
- Mae ein hymagwedd at wella ansawdd sy'n arwain y byd yn hwyluso meincnodi rhyngwladol a phartneriaethau rhyngwladol darparwyr, yn ogystal â ffurfio sail i ymdrechion prifysgolion a cholegau eu hunain i ddarparu addysg o'r radd flaenaf.
- Rydym yn tanategu addysg drawswladol y DU ac yn chwarae rhan amlwg wrth wella enw da sector y DU a meithrin perthnasoedd.

# Mae QAA yn unigryw



- **Enwogrwydd rhyngwladol:** Mae ein harbenigedd yn adlewyrchu ein hanes 25 mlynedd fel corff ansawdd annibynnol, diduedd sy'n arwain y byd, ac sydd wedi helpu i sefydlu systemau ansawdd ledled y byd.

- **Myfyrwyr fel partneriaid:** Mae myfyrwyr a dysgwyr yn rhan annatod o'n holl waith – o'n timau adolygu i helpu i lunio ein canllawiau –ac maent wedi'u gwreiddio yn ein llywodraethiant a'n strwythurau.

- **Ar draws y DU:** OMae ein rôl DU-gyfan a'n gwarchodaeth o gyfeirbwyntiau'n darparu'r llinyn cyffredin sy'n rhedeg drwy'r ymagweddau at ansawdd a safonau yng ngwledydd y DU.

- **Cydweithredol ddeallus:** Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau, weithiau drwy heriau adeiladol, gan eu cynorthwyo gyda gwelliant tra'n parchu eu hannibyniaeth academaidd.

- **Cysylltiadau unigryw:** Mae gennym berthnasoedd agos ag asiantaethau ansawdd a chyrff partner yn y DU ac yn fyd-eang, a gyda chyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol (PSRBs) y byddwn yn dod â hwy ynghyd yn rheolaidd er budd prifysgolion, colegau a llywodraethau.

- **Mandad gan y sector:** Rydym yn elusen sydd â chylch gorchwyl sy'n deillio o'r sector ei hun. Cawsom ein creu ac rydym yn eiddo i gyrff cynrychioli'r sector ar ran y sector ehangach. Felly mae Aelodaeth QAA yn ymgorffori ymrwymiad cyfunol y sector i ansawdd a safonau.

# Beth sydd wedi newid yn ein strategaeth?

## 1. Mae ein rôl yn y DU yn datblygu

Mae QAA wedi ymateb i amgylchedd polisi newidiol ar draws y DU, wrth i lywodraethau, cyllidwyr a rheoleiddwyr esblygu eu hymagweddau.

Ledled y DU rydym yn bartner dibynadwy i lywodraethau a chyrff cyllido.

Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, rydym yn gweithio ar y cyd â'r sector i ddiwallu anghenion pob gwlad.

Yn Lloegr, mae ein rhaglen aelodaeth hynod lwyddiannus yn darparu ffynhonnell gynhwysfawr o adnoddau i arweinwyr strategol, arbenigwyr ym maes ansawdd a myfyrwyr a dysgwyr fel ei gilydd.

Ar ôl penderfynu camu i ffwrdd o rôl ar wahân yn darparu adroddiadau ar gyfer rheoleiddiwr Lloegr, byddwn yn gallu ychwanegu at yr adnoddau hyn gyda gwasanaethau newydd, yn seiliedig ar ein profiad unigryw o helpu sefydliadau i fodloni a chydbwyso gofynion rheoleiddwyr a PSRBs.

Mae hyn, ynghyd â'n harbenigedd ym maes ansawdd a safonau, yn ein rhoi mewn sefyllfa ddelfrydol i helpu prifysgolion a cholegau i lywio a bodloni'r gofynion hynny, tra'n cyflawni eu huchelgeisiau eu hunain ar gyfer gwella ansawdd – ac i ddangos tystiolaeth o hyn mewn ffyrdd arloesol sy'n mynd y tu hwnt i weithgarwch sicrwydd traddodiadol.



# Beth sydd wedi newid yn ein strategaeth?

## 2. Mae gorwelion QAA yn ehangu y tu hwnt i addysg uwch i wasanaethu'r sector trydyddol ehangach

Ym mhob gwlad yn y DU, mae addysg uwch ac addysg bellach yn dod at ei gilydd fwyfwy i gefnogi dysgu gydol oes, ac mewn ymateb i anghenion economaidd lleol a rhanbarthol. Bydd hyn yn dod â ffocws newydd ar sgiliau, cymwysterau technegol a galwedigaethol, a gwell profiad trosglwyddo i ddysgwyr.

Mae QAA wedi sefydlu arbenigedd mewn credydau a micro-gymwysterau, ac wedi gweithio ers tro gyda cholegau addysg bellach sy'n darparu addysg uwch, ond rydym yn mynd ymhellach yn awr drwy baratoi ar gyfer tirwedd addysg newydd.

Ar draws y sector trydyddol cyfan, bydd QAA yn gwasanaethu anghenion cyrff cyllido a rheoleiddio, prifysgolion a cholegau, yn ogystal â myfyrwyr a dysgwyr, ble bynnag y mae angen arbenigedd corff ansawdd annibynnol.



# Beth sydd wedi newid yn ein strategaeth?

## 3. Mae ein gwaith rhyngwladol yn tyfu ac yn esblygu

Gall llywodraethau a phartneriaid rhyngwladol gael amgylchedd ansawdd y DU yn gymhleth i'w lywio, yn enwedig lle mae polisi'n amrywio. Mae enw da a safle QAA fel asiantaeth ansawdd o safon fyd-eang yn ein galluogi i ddarparu cyngor, mewnwelediad a sicrwydd ynghylch cryfderau parhaus ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch y DU.

Rydym yn defnyddio ein harbenigedd a gydnabyddir yn fyd-eang fel sail i ffurfio a pharhad partneriaethau rhyngwladol, ac i gynorthwyo sector y DU wrth iddo groesawu mwy o fyfyrwyr rhyngwladol ac ymestyn ei gyrhaeddiad drwy addysg drawswladol. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein harlwy yn y meysydd hyn.

Ar yr un pryd, mae proffil rhyngwladol QAA ei hun yn parhau i dyfu, ac mewn nifer cynyddol o farchnadoedd, mae galw mawr am ein Hadolygiad Ansawdd Rhyngwladol ac Achrediad Rhaglenni Rhyngwladol. Byddwn yn ehangu ein darpariaeth o'r gwasanaethau hyn mewn ffordd sy'n llywio ein gwaith yn y DU wrth i ni ddysgu o arfer gorau rhyngwladol, ac mae hynny'n ein helpu i gynnig cymorth mwy cost-effeithiol i sector y DU.



# Strategaeth 2023-27

@QAAtweets

https://tiny.cc/QAALinkedIn

Ffôn: **01452 557000**
Gwe: **www.qaa.ac.uk**

Cyhoeddwyd – Ebrill 2023

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2023

Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB Rhifau'r elusen gofrestredig 1062746 a SC037786